

DOLEN Y TAB – 8

12–13 Mehefin 2020

DYDD SUL 14 MEHEFIN

OEDFA'R TABERNACL

Cofiwch droi i mewn i'n hoedfa ar lwyfannau Facebook a gwefan y capel fore Sul. Bydd yr oedfa yng ngofal Gethin Rhys a Fiona Liddell.

Oedfaon Amgen

10.30 www.annibynwyr.org

Oedfa ddigidol yng nghwmni'r Parchedig Iwan Llewelyn Jones, Borth y Gest.

11.00 S4C Oedfa Dechrau Canu Dechrau Canmol

Gwasanaeth dan ofal y Parchedig Alun Tudur, Ebeneser, Caerdydd.

12.00 Oedfa Radio Cymru

Dan arweiniad Aled Lewis Evans, Wrecsam.

7.30 S4C Dechrau Canu Dechrau Canmol

Yn ystod y rhaglen nos Sul bydd cyfle i fwynhau Siân Meinir yn canu emyn ynysu Euryrn Ogwen.

Cofiwch hefyd fod *Cristnogaeth21* yn cyhoeddi e-fwletin ar eu gwefan bob bore Sul:
www.cristnogaeth21.cymru

HENO (NOS WENER, 12 MEHEFIN) AM 7 O'R GLOCH

Yn fyw i'ch cartrefi . . .

CWIS BOB OED CAPEL Y TABERNACL

CWISFEISTRÍ:
RHIANNON & GARETH
a
HEULYN REES

CROESO I BAWB YMUNO AR ZOOM!

ID: 88631469252
CYFRINAIR: 391265

CASGLIAD BANC BWYD TAF ELÁI

Gyda chyfnod casgliad Wythnos Cymorth Cristnogol wedi dod i ben, byddwn yn ail-afael yn ein casgliad ariannol ar gyfer Banc Bwyd Taf Elái. Mae mwy o bobl nag erioed yn dibynnu ar y Banc Bwyd yn ystod y cyfnod heriol hwn, a ninnau'n methu cynnal ein casgliad bwyd arferol oherwydd y cyfyngiadau presennol. Fe fyddwn ni'n dilyn y drefn ddiweddar o gyfrannu:

Trosglwyddiad banc:

Cod didoli 30 – 96 – 72

Rhif y cyfrif 03607499

Cyfeirnod Banc Bwyd Taf Elái

Siec yn daladwy i: Capel y Tabernacl Cyf
gyda nodyn yn enwi Banc Bwyd Taf Elái
Anfoner at: Mr Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU

TAFOD Y TAB

Cyhoeddir rhifyn digidol o'r *Tafod* ddydd Sul 5 Gorffennaf. Bydd yn rhifyn arbennig iawn oherwydd bydd ynddo atodiad 12 tudalen, 'Dathlu'r 150'.

Unwaith eto, gwahoddir cyfraniadau – yn adroddiadau, portreadau, erthyglau, lluniau ac yn blaen – i weddill y rhifyn, a hynny **erbyn dydd Iau 25 Mehefin**. Dylid anfon y cyfraniadau hyn mewn e-bost i gehpengwern@yahoo.co.uk. Gallwch hefyd bostio cyfraniadau at: Gwilym ac Eleri Huws, Tal-y-fan, 9 Gerddi'r Sofran, Meisgyn, Pontyclun CF72 8SZ.

YR AMLENNI GWYN A BROWN

Gallwch gyfrannu i gronfa'r eglwys (amleni gwyn) a/neu gronfa'r elusennau (amleni brown) drwy anfon siec yn daladwy i *Capel y Tabernacl Cyf.* at ein Trysorydd: Mr Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU. Neu gallwch wneud trosglwyddiad banc i gyfrif y capel, gan nodi Casgliad Amlenni Gwyn neu Casgliad Amlenni Brown ynghyd â'ch rhif aelodaeth yn y blwch lle gofynnir am gyfeirnod:
Enw'r cyfrif: Capel y Tabernacl Cyf.
Cod didoli: 30 – 96 – 72; Rhif y cyfrif: 03607499.

Diolch am bob cefnogaeth.

Cylchlythyr wythnosol yw hwn i ledaenu newyddion teuluol, cyhoeddiadau neu ddiolchiadau i aelodau'r Tabernacl trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel www.tabernacl.org. Cofiwch argraffu copi i'r aelodau hynny sydd heb gysylltiad â'r we. Anfonwch unrhyw newyddion sydd gennych i'w rhannu erbyn nos Iau yn wythnosol i: gehpengwern@yahoo.co.uk / 01443 225205.

- DROSODD



Mewn un ystyr mae'r byd fel petai wedi arafu gan nad oes fawr o wahaniaeth bellach rhwng un diwrnod a'r nesaf, nid yn unig i'r rhai sy'n gaeth i'w cartrefi, y di-waith a phensiynwyr, ond hefyd i'r rhai sydd wedi hen arfer teithio i'w gwaith, i'r ysgol neu goleg am bum niwrnod bob wythnos. I'r mwyafrif llethol ohonom mae colli'r oedfaon yn y Tabernacl ar ddydd cyntaf yr wythnos am y tri mis diwethaf wedi bod yn brofiad dieithr iawn. Er nad yw hynny, wrth gwrs, yn tynnu dim oddi ar werth y cyfraniadau clodwiw gan rai o aelodau'r Tabernacl ar dudalen *Facebook* a Gwefan yr eglwys.

Ond er ei bod yn ymddangos bod ein bywydau wedi arafu, mae rhai pethau sydd wedi gweld newid chwyldroadol dros y cyfnod clo. Efallai mai un o'r datblygiadau mwyaf annisgwyl, ond cwbl ddealladwy, yw'r twf rhyfeddol yn niferoedd a demograffeg y rhai sydd bellach yn brofiadol a chysurus wrth gysylltu â theulu a chyfeillion ar lwyfannau digidol amrywiol na fyddent wedi breuddwydio eu cyffwrdd cyn eleni.

Mae'r eglwysi hwythau ar hyd a lled Cymru hefyd wedi cofleidio'r cyfryngau newydd hyn mewn ffordd cwbl ddramatig. Yn rhifyn 4 Mehefin o'r *Tyst*, dywed y Parchedig Alun Tudur fod 'mwy o ddarpariaethau aml-gyfryngol Cymraeg wedi eu creu yn ystod y 10 wythnos diwethaf nag a welwyd erioed o'r blaen . . . ac mae'n ddatblygiad gwych.'

Ond aiff yn ei flaen i ychwanegu bod rheidrwydd arnom i sicrhau y bydd presenoldeb Cristnogaeth yn yr iaith Gymraeg yn parhau ar y we, hyd yn oed wedi i'n cynulleidfaoedd traddodiadol ddychwelyd i'w capeli a'u heglwysi. Bellach, gan fod mwyafrif pobl Cymru yn troi at y we yn ddyddiol, mae'n rhesymol meddwl mai dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o bell ffordd o drosglwyddo neges yr Efengyl. Wrth fabwysiadu'r cyfryngau hyn gellir lledaenu'r neges yn uniongyrchol i unigolion a theuluoedd yn eu cartrefi. Mae'r cyfryngau newydd hefyd yn cynnig hyblygrwydd o ran sut a ble mae person yn derbyn y neges, ac yn bwysicach na dim efallai nad oes rheidrwydd i 'fynychu' oedfa ar amser penodol. Gallaf dystio i'w osodiad. Er enghraifft, ymhlith yr holl ddarpariaeth ar ein cyfer Sul diwethaf, fe anghofiais yn llwyr 'alw i mewn' i

wylio un gwasanaeth at fy nant tan nos lau. Y cyfan roedd yn rhaid i mi ei wneud oedd gwasgu un botwm ar y peiriant o'm blaen a gwranddo ar neges Robot Powell o Glydach, a hynny heb adael y tŷ.

Mae'n amserol, felly, mai yn ystod yr wythnos hon y lanswyd gwasanaeth newydd sbon ar wefan cristnogaeth.cymru, sef sianel **Teledu Cristnogol Cymru**. Pwrpas y gwasanaeth – yn ôl ei gyfarwyddwr, y Parchedig Aled Davies, Chwilog – yw corlannu'r holl gynnyrch sydd wedi ymddangos yn ystod y cyfnod clo a fyddai fel arall ar chwâl, gan ei gwneud yn llawer rhwyddach pori am ddeunydd priodol.

Sioc i mi oedd deall bod dros 450 o 'raglenni' Cymraeg eisoes ar gael ar y sianel, ac mae'r nifer yn chwyddo'n wythnosol. Wrth bori'n sydyn drwy'r is-adrannau'r sianel, mae'n syndod sylwi ar faint ac amrywiaeth y fideos sydd ar gael ar flaenau'n bysedd. Er enghraifft, mae 14 o oedfaon diweddar a luniwyd gan Undeb yr Annibynwyr a nifer tebyg yng nghyfres Eglwys Bresbyteriaidd Cymru heb sôn am gynnyrch dau ddwsin o eglwysi unigol ledled Cymru – er nad yw arlwy Capel y Tabernacl yn eu plith mor belled! Hefyd mae dros 50 o ddarlleniadau o'r Beibl, 25 o emynau cynulleidfaol, 23 o ganeuon addoli i blant ac 13 o garolau a llawer iawn mwy.

Dywedodd Aled Davies fod y cyfnod clo wedi bod yn heriol i'r eglwysi: '*dan ni wedi gorfod addasu ac roedden angen gwneud hynny beth bynnag*'. Mae'n gobeithio'n fawr y bydd y deunyddiau sydd ar Teledu Cristnogol Cymru o gymorth nawr ac yn y dyfodol i eglwysi ledled Cymru, ac y byddant hefyd yn denu cynulleidfa newydd.

Rydym wedi clywed llawer o drafod dros y misoedd diwethaf am y 'normal newydd' pan fydd COVID-19 wedi diflannu o'r tir. Mae hwn yn fater o bwys i'r eglwysi hefyd. A yw'r amser wedi dod i ni ailfeddwl am rai traddodiadau rydym wedi glynu wrthynt ers canrifoedd? Caiff hyn ei wyntyllu mewn erthygl i brocio'r meddwl yn *Y Tyst* yr wythnos hon gan y Parchedig Robin Samuel, yn dwyn y teitl '*Ydy'r eglwys yn rhy Sul-ganolog?*' Erthygl yw hi sy'n galw am symposiwm i drafod y mater.

(Gyda llaw, gallwch ddarllen erthyglau Robin Samuel ac Alun Tudur ar wefan Undeb yr Annibynwyr (annibynwyr.cymru) gan fod rhifynnau digidol o'r Tyst ar gael yno dan yr adran 'Adnoddau').